**Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg**

***Welsh Language Advisory Panel***

**11 Medi 2025 am 2yp**
**Cyfarfod Aml-Leoliad**

**COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru |
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Edward Skinner | ES | Llafur |
| Cyng. Tina Higgins | TH | Llafur |
| **Swyddogion** | | |
| Gwyneth Ayres | GA | Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Pherfformiad |
| Christopher Newcombe | ChN | Rheolwr Datblygu'r Gymraeg |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi a Phartneriaeth |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd Cynghorydd Glynog Davies pawb i'r cyfarfod.<br><br>Ymddiheurwyd am yr oedi, fe orwyd newid ystafell yn funud olaf. | |
| 2. | **Pobl ifanc yn mudo a gadael cadarnleoedd**<br><br>Croesawyd Elen Bonner o Brifysgol Bangor i'r cyfarfod.<br><br>Amlinellodd Elen y gwaith ymchwil a wnaed fel rhan o Raglen Arfor er mwyn edrych ar fudoledd pobl ifanc o fewn y rhanbarth.<br><br>Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod arwyddocâd cefnogi isadeiledd economaidd ardaloedd sydd a dwysed uwch o siaradwyr Cymraeg. Ceir canfyddiad o ddiffyg cyfleoedd swyddi i bobl ifanc o ardaloedd Arfor (a'u bod o ganlyniad yn gadael). Ond ar y llaw arall, mae canfyddiad bod cyflogwyr lleol yn wynebu heriau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg.<br><br>Amlinellodd EB y pecyn recriwtio gweithlu dwyieithog a baratowyd fel rhan o'r gwaith ymchwil. Yn rhan o'r pecyn, mae yna twlcit arfer da recriwtio staff dwyieithog a fframwaith teipoleg mudo siaradwyr Cymraeg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae yna saith thema allweddol yn codi o'r gwaith ymchwil:<br><br>• Recriwtio<br>• Y broses recriwtio<br>• Sgiliau iaith Gymraeg<br>• Hyder a'r iaith Gymraeg<br>• Gweithleoedd Cymraeg<br>• Gyrfaoedd, Cytundebau a Chyflogau<br>• Delwedd<br><br>Manylodd Elen ar y thema Recriwtio gan nodi wrth recriwtio y dylid cynllunio ffyrdd o gyrraedd y gynulleidfa darged. Un enghraifft o hynny byddai creu fideo fer yn hyrwyddo cyfleoedd swyddi. Nodwyd mai'r arfer da byddai ystyried pwy dy ni'n ceisio denu i'r gweithlu a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd mwyaf manteisiol.<br><br>Trafodwyd y syniad o ran creu gweithleoedd sy'n atyniadol i siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys y negeseuon i siaradwyr Cymraeg i nodi ein bod yn croesawu sgiliau Iaith.<br><br>Dylid hefyd codi ymwybyddiaeth o'r swyddi a'r gyrfaoedd posib sydd ar gael yn lleol ymhlith pobl ifanc.<br><br>O ran teipoleg penderfyniadau mudo, roedd hyn yn rhan o waith PhD Elen wrth edrych ar y ffactorau sy'n arwain at benderfyniadau pobl ifanc o ran mudo ac aros yn lleol. Arweiniodd Elen yr Aelodau drwy'r categorïau o ran y rhai sy'n aros, y rhai sy'n gadael a'r rhai sydd yn dod yn ôl. Y rhai sydd yn gadael yw'r rhai sydd anoddaf i'w cyrraedd ond mae dal nifer sy'n dyheu i ddod nol felly mae'n hanfodol cadw mewn cysylltiad â hwy.<br><br>Trafodwyd y rhai **sy'n chwifio'r faner –** pobl ifanc sydd gydag ymdeimlad cryf o berthyn, sy'n teimlo dyletswydd i aros ond bod angen cydnabyddiaeth arnynt am eu penderfyniad. Mae'r rhai **sy'n dewis gadael** yn awyddus i gael cyfleoedd ac anturiaethau newydd ond eto, mae cyfle i gadw mewn cysylltiad â hwy ar gyfer cyfnodau hwyrach mewn bywyd e.e. sefydlu teulu. O ran y rhai **sy'n gweld cyfle**, maent wedi dychwelyd yn groes i'r disgwyl o ganlyniad i gynnig swydd ddeniadol.<br><br>Cytunwyd i ddanfon dolen at y gwaith ymchwil a chopi o'r cyflwyniad at Aelodau'r Panel.<br><br>Nododd y Cynghorydd PG, bod yr elfen ymarferol yn bwysig iawn a bod gyda ni Ganolfan arbennig yn Yr Egin sydd yn gweithio tuag at hyn.<br><br>Nododd y Cynghorydd CJ ei gofid fod y rhai sy'n dewis aros yn y sir, yn gorfod cario pwysau cyfrifoldeb a disgwyliadau.<br><br>Cytunwyd i ddanfon dolen at waith ymchwil sydd wedi ei wneud ym Mro Ffestiniog, sydd yn edrych ar y penderfyniad i aros fel antur.<br><br>Gofynnodd y Cyng. SA o ran hunan gyflogaeth a lefelau hynny mewn ardaloedd gwledig. Sut dy ni'n ystyried y rhai sy'n hunan gyflogedig fel rhan o'r gwaith hyn o'i gymharu y rhai sydd yn gweithio mewn sector fel y gwasanaeth iechyd.<br><br>Cafwyd ymholiad gan Cyng. Carys o ran y cynnydd mewn costau i fynd i'r Brifysgol a'r newid sydd wedi bod wrth i rhai pobl ifanc aros yn lleol wrth fynd i Brifysgol.<br><br>Nododd Elen fod y gwaith y mae Arfor yn ei wneud wrth greu cynnwrf am ardaloedd gwledig, mentrau cymdeithasol ayyb yn hynod bositif.<br><br>Gofynnodd y Cyng. Carys a oes modd i ni ymyrryd a dylanwadu yn fwy ar fyfyrwyr trydydd blwyddyn er mwyn dangos yr hyn sydd gael yn y sir? Mae Arfor wedi bod yn edrych ar y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | potensial o Glwb Cadw Cyswllt er mwyn rhannu negeseuon a chyfleoedd ymhlith pobl ifanc.<br><br>Cafwyd ymholiad gan y Cyng. Tina Higgins o ran argaeledd gweithio o adref a dylanwad hyn ar benderfyniadau pobl. Esboniodd Elen bod cyfnod COVID-19 wedi hwyluso i hyn ddigwydd ymhlith pobl ifanc oedd ychydig yn hyn ond ar y llaw arall, bod hyn wedi creu ansicrwydd ymhlith pobl ifanc oedd yn cychwyn ar eu swydd cyntaf. | |
| **3.** | **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**<br><br>Croesawyd Chris Newcombe i'r Panel, yn dilyn ei benodiad fel Rheolwr y Gymraeg o fewn yr Adran Addysg, Plant a Theuluoedd.<br><br>Daw Chris o Aberteifi yn wreiddiol ond wedi byw yng Nghaerdydd ers deuddeg mlynedd. Penodwyd Chris i'r swydd ym mis Ebrill 2025 ond cyn hynny roedd yn Brif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion dros pum sir yn y De Ddwyrain. Bu Chris hefyd yn athro ac yn bennaeth yn y cyfnod cyn hynny.<br><br>Amlinellodd Chris ei waith o ran Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r rôl o fewn yr Adran Addysg, Plant a Theuluoedd. Mae'r swydd hefyd yn gyfrifol am y Strategaeth Hybu a'r Fforwm Iaith Sirol. Rydym hefyd wedi penodi, ar secondiad, arweinydd y CSGA o Sir Geredigion er mwyn cynyddu capasiti i arwain y gwaith.<br><br>Mae'r CSGA cyfredol ym mynd hyd at 2027 ac erbyn hyn mae'r gwaith hynny wedi ei gynnwys fel rhan o waith Fforwm Sirol Strategol y Gymraeg yn y sir ac mae'r is-grwpiau a fydd yn arwain ar y deilliannau yn digwydd ar hyn o bryd.<br><br>Lansiwyd partneriaeth strategol newydd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, gyda thiwtor penodol ar gael i gefnogi ysgolion sydd yn paratoi i symud ymlaen ar y continwwm ieithyddol. Mae Chris hefyd wedi gweithio gyda'r Tîm Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i sicrhau fod gwaith y tîm yn cefnogi gwaith y CSGA.<br><br>Cynhaliwyd Fforwm Penaethiaid er mwyn esbonio'r gwaith o ran Bil y Gymraeg ac Addysg a'r camau nesaf o ran gweithredu. Cafwyd ymholiad gan Cyng. Carys am ymateb y Penaethiaid i'r gwaith a nodwyd eu bod yn ymwybodol o gyfeiriad y Cyngor o ran y CSGA pa gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r ymateb dal yn gymysg ond mae'n allweddol ein bod yn cefnogi ein Penaethiaid.<br><br>Mae yna Ganolfan Drochi yn Ysgol Maes y Gwendraeth ond mae gwaith ar droed i edrych ar gynhwysedd daearyddol ac i sefydlu canolfan yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol y Strade.<br><br>Nodwyd hefyd y pwysigrwydd o hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd i weithio gyda chynllun Cymraeg i Bawb.<br><br>Cytunwyd i drefnu sesiwn gyda'r Panel Ymgynghorol a Chris, wyneb yn wyneb.<br><br>Nododd GA y pwysigrwydd o ran cynnwys partneriaid cymunedol yn y gwaith, fel eiriolwyr i'r CSGA ac i'r Bil y Gymraeg ac Addysg. Esboniodd Gwyneth y bydd disgwyl i'r Cyngor symud tuag at y fframwaith CEFR yn ogystal, a bydd angen ystyried goblygiadau arnom o ran recriwtio. | |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | **Adroddiad Terfynol Grant WLGA**<br><br>Rhannwyd copi o'r adroddiad terfynol ymhlith yr Aelodau. Mae'r adroddiad wedi ei gyflwyno yn ffurfiol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n cynnwys gwerthusiad o'r prosiectau fel rhan o gylch myfyriol Gibbs.<br><br>Diolchodd yr Aelodau am yr adroddiad manwl. | |
| 5. | **Cofnodion cyfarfod 19 Mehefin 2025**<br><br>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai gywir. | |
| 6. | **Unrhyw fater arall**<br><br>Nododd y Cyng. Peter HG ei fod wedi derbyn copi o raglen y Theatrau o'r Hydref hyd at fis Ebrill. Mae Peter wedi denu sylw y deilydd portffolio, Cyng. Hazel at y ffaith mai prin yw'r perfformiadau cyfrwng Cymraeg a Chymreig sydd yn y rhaglen ar draws y safleoedd. Mae gan y sir gyfleusterau arbennig o ran Theatrau a siom yw gweld cyn lleied o'r Gymraeg. Bydd Cyng. Hazel yn trafod hyn gydag Ian Jones, y Pennaeth Gwasanaeth. | |
| 7. | **Dyddiadau'r cyfarfod nesaf:**<br><br>• *11 Rhagfyr am 2 yn y prynhawn*<br>• *12 Mawrth am 2 yn y prynhawn* | |